YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD Mercher, 10 Gorffennaf 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Aelod y Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 1.00 - 1.14 yp

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAI 2024

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024, gan ei fod yn gywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi swyddi gwag ar Gyrff Llywodraethu :-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Dafen (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mrs E. Jones
Laugharne (1 swydd wag o 12.10.24 – 1 enwebiad)	Cyng. Jane Tremlett
Llanmiloe (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Ms A. Gibbs
Mynyddygarreg (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Ms L. Reeves-Davies
Teilo Sant (2 swydd wag – 2 enwebiad)	Mrs A. E. Jones Mr E Madoc Jones
Y Dderwen (1 swydd wag o 26.09.24 – 1 enwebiad)	Cyng. Peter Hughes-Griffiths

Ysgol Uwchradd	Penodiadau
Bro Myrddin (1 swydd wag o 26.09.24 – 1 enwebiad)	Cyng. Peter Hughes-Griffiths
Dyffryn Aman (3 swydd wag [1 cyfredol a 2 o 05.09.24] – 2 enwebiad)	Mrs N. Evans (o 05.09.24) Mr D. Jenkins (o 05.09.24)

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**